Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid

Cynllun Gweithredu 2019-20







# Cynnwys


03 **Rhagair y Gweinidog**

05 **Cyflwyniad**

07 **Y Cefndir**

09 **2017-19 Adolygiad o Gynllun Gweithredu**

10 **Deddf llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

13 **Cynllun Gweithredu 2019-20**
- Cynlluinio Iechyd Anifeiliad
- Bioddiogelwch
- Adnabod Anifeiliaid / Cronfa Ddata Amlrywogaeth Cymru

17 **Bod yn Berchnogion Cyfrifol**
- Codau Ymarfer Lles
- Bridio Cŵn / Gwerthu gan Drydydd Partïon
- Ymosodiadau ar Dda Byw
- Arddangosfeydd o Anifeiliaid a'r Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)

22 **Atal Clefydau**
- Defnyddio Meddyginiaethau mewn ffordd Gynaliadwy – Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd a Meddyginiaethau Lladd Llyngyr
- Meddyginiaethau lladd llyngy
- Rheoli Mewnforion
- Unedau Cwarantin

29 **Gwaredu Clefydau**
- Cynlluniau Wrth Gefn
- Twbercwlosis Buchol
- Dolur Rhydd Feirysol
- Buchol Y Clafr

34 **Manylion cyswllt**

# Rhagair y Gweinidog

## Sicrhau Cymru gydnerth cyn ac ar ôl ymadael â'r UE



**Lesley Griffiths**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

Ers i mi gyhoeddi Cynllun Gweithredu 2017-18, rydym ni wedi gorfod wynebu'r her o sicrhau cydnerthedd economaidd a pharhau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid mewn cyfnod o newid digynsail yn sgil y penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Er eu bod yn gymhleth, mae'r holl faterion a godwyd wedi rhoi cyfle i ni fyfyrio a phenderfynu sut rydym ni eisiau i Gymru edrych ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i ni barhau i fachu ar y cyfle hwn i benderfynu lle rydym ni'n sefyll mewn marchnad fyd-eang newydd sy'n datblygu.

Mae'r ansicrwydd hwn yn parhau wrth i ni wneud ein gorau glas i sicrhau canlyniadau sy'n iawn i Gymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod gennym ni weledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol Cymru; mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) wedi gosod nodau i ni wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, ac mae hyn yn dal i fod yn sail i'n holl waith o dan Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Mae cyhoeddi Cynllun Gweithredu 2019-20 yn dangos ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu ein blaenoriaethau iechyd a lles anifeiliaid, ochr yn ochr â'r pwysau ychwanegol sydd arnom ni.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys datblygu cam nesaf Rhaglenni Gwaredu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD), y Clafr a TB Gwartheg (TB), ynghyd â pharhau i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol i ddiogelu lles anifeiliad, y gadwyn fwyd ac iechyd a llesiant y cyhoedd.

Rydym ni wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Gweithredu Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd, gyda chymorth grŵp cyflenwi sy'n cynnwys rhanddeiliaid o'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i'r cynnydd mewn AMR, sy'n bygwth ein gallu i reoli heintiau mewn pobl ac anifeiliaid, a bydd yn ffocws allweddol i ni dros y flwyddyn i ddod.

Rydym ni wedi ymrwymo i gyflawni amryw o flaenoriaethau lles anifeiliaid, gan gynnwys gwahardd gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partïon, cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer arddangosfeydd o anifeiliaid, diweddaru ein Codau Ymarfer presennol ar gyfer lles rhywogaethau mwy cyffredin a sicrhau lles anifeiliaid adeg eu lladd. Rwy'n falch hefyd ein bod yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Rwy'n croesawu'r cyfraniad cadarnhaol y gall Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ei wneud at y ffrydiau gwaith hyn dros y flwyddyn i ddod.

Gan bwyso a mesur ar ein cyflawniadau ers ein Cynllun Gweithredu diwethaf, mae gennym ni lawer i'w ddathlu.

Rydym ni wedi cymryd camau enfawr tuag at waredu BVD trwy lansio Gwaredu BVD, ein cynllun dan arweiniad y diwydiant, yn y Sioe Fawr yn 2017. Mae'r rhaglen sgrinio yn dangos y cynnydd y gellir ei wneud trwy weithio mewn partneriaeth a sicrhau mwy o gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, milfeddygon a'r diwydiant.

Amlygodd is-grŵp y Clafr o Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yr her mewn perthynas â'r Clafr ledled Cymru ac, o ganlyniad, ym mis Ionawr eleni, fe wnaethom gyhoeddi y bydd cyllid o £5 miliwn ar gael trwy ein Rhaglen Datblygu Gwledig i helpu i fynd i'r afael â'r clefyd hwn.

Yn 2018, aethom ati i adolygu a diweddaru ein Cynllun Wrth Gefn ar gyfer clefydau egsotig hysbysadwy, gan adlewyrchu'r polisïau clefydau anifeiliaid diweddaraf a gwersi a ddysgwyd.

Amlinellodd ein cynllun gweithredu diwethaf rai amcanion uchelgeisiol, ac rwyf wedi amlygu rhai o'r llwyddiannau a gyflawnwyd. Mae ein cynllun ar gyfer eleni yr un mor uchelgeisiol, wedi'i osod yn erbyn dyfodol ansicr, ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n ddiflino ar wneud gwelliannau i safonau iechyd a lles pob anifail a gedwir yng Nghymru.



# Cyflwyniad



**Christianne Glossop**
Prif Swyddog
Milfeddygol Cymru.

**"Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar helpu'r sectorau anifeiliaid yng Nghymru i addasu i'r newidiadau sy'n codi yn sgil y newid yn ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd, gan barhau i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol o dda byw a ffermir, anifeiliaid anwes, anifeiliaid sy'n gweithio ac anifeiliaid a gedwir at ddiben chwaraeon."**

Mae'r blaenoriaethau a gyflwynir yn y cynllun gweithredu hwn wedi'u gosod yn erbyn yr heriau sy'n ein hwynebu o ran sefydlu ein perthynas â'r UE yn y dyfodol a'r effaith y gall hyn ei chael ar dirwedd Cymru, ond iechyd a lles anifeiliaid yw ein blaenoriaeth allweddol o hyd.

Un o egwyddorion allweddol Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yw "gwell atal na gwella" – gall cydnabod perchnogaeth gyfrifol leihau clefydau anifeiliaid ac effeithiau lles cysylltiedig. Mae'r neges allweddol hon yn rhan annatod o'n gwaith gan ein bod yn hyrwyddo Cynllunio Iechyd Anifeiliaid a'r manteision sylweddol y gall hynny eu cyflwyno i fusnesau fferm unigol a'r diwydiant ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys gwell safonau iechyd a lles anifeiliaid, mwy o gynhyrchiant ac elw ynghyd â manteision mwy o gydnerthedd o ran busnes a mwy o gyfleoedd masnachu. Yn ogystal, mae'r galw am fwy o dryloywder a sicrwydd o ran safonau lles gan ddefnyddwyr wedi arwain at gynlluniau sicrwydd yn codi'r bar ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

Dylai cynlluniau iechyd anifeiliaid a ddatblygir rhwng y ffermwr a'i filfeddyg preifat gael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, gan adlewyrchu anghenion unigol pob busnes ffermio.

Mae meddyginiaethau anifeiliaid yn gwneud cyfraniad pwysig at reoli ac atal clefyd. Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n gywir ac nad ydynt yn cael eu defnyddio yn lle arferion rheoli da.

Mae dull "Un Iechyd" o reoli risg AMR wedi'i ddefnyddio yng Nghymru, gan gwmpasu ystyriaethau meddygol, milfeddygol ac amgylcheddol. I helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiad Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i gefnogi gweledigaeth 20 mlynedd a chynllun gweithredu 5 mlynedd AMR yn y DU, sefydlwyd Grŵp Cyflenwi AMR newydd fel is-grŵp o Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Datblygwyd cynllun gweithredu manwl, penodol i Gymru i ddarparu ffocws penodol i gylch gwaith arbenigol y Grŵp Cyflenwi AMR, sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus a ddewiswyd oherwydd eu harbenigedd a'u diddordeb arbennig yn AMR.



Bydd ein ffocws yn parhau ar amddiffyn rhag datblygiad a lledaeniad clefydau heintus anifeiliaid a bod yn barod i ymdrin ag unrhyw achos o glefyd anifeiliaid hysbysadwy a all godi yng Nghymru. Rhaid i'r clefydau hyn gael eu trafod yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, gyda chynlluniau wrth gefn cadarn ar waith i sicrhau ymateb effeithlon ac effeithiol. Yn allweddol i hyn mae parhau â'n blaenoriaeth bresennol o ran 'cadw gwyliadwriaeth filfeddygol' – monitro tueddiadau clefydau anifeiliaid a darparu system rhybudd cynnar ar gyfer clefydau newydd neu glefydau sy'n codi unwaith eto. Mae canfod y clefydau hyn yn gynnar ac yn gywir yn ein galluogi i wneud penderfyniadau cyflym a phriodol i ddiogelu bwyd, iechyd a lles pobl ac anifeiliaid a'r amgylchedd.

Mae bod yn berchnogion cyfrifol yn dal i fod yn thema allweddol, a dylai fod gan berchnogion ymwybyddiaeth o anghenion lles yr anifail a dylent sicrhau bod ganddynt fesurau ataliol ar waith i gyflawni'r safonau gofal sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae gan Lywodraeth Cymru Godau Ymarfer ar waith ar gyfer lles da byw ac amrywiaeth o anifeiliaid anwes, ac mae wedi ymrwymo i ddiwygio codau presennol ar gyfer cathod, moch, ieir dodwy ac ieir bwyta eleni, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal, bydd y Cod Ymarfer ar gyfer Lles Adar Hela yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyfredol, a datblygwyd cod gwirfoddol ar Sefydliadau Lles Anifeiliaid gan Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW). Mae AWNW yn datblygu cod gwirfoddol ar gyfer milgwn rasio a phrimatiaid hefyd, ac mae'n diwygio Cod Ymarfer presennol Llywodraeth Cymru ar Les Cwningod.

# Y Cefndir



**Stephen James**
Cadeirydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Lansiwyd Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ym mis Gorffennaf 2014, gan amlinellu ein cynllun deng mlynedd cyffredinol ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid a helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad at yr economi a'r amgylchedd.

Mae'r Fframwaith yn cwmpasu iechyd a lles anifeiliaid a ffermir, anifeiliaid anwes, anifeiliaid sy'n gweithio ac anifeiliaid a gedwir at ddiben chwaraeon a dyframaeth. Mae bywyd gwyllt yn cael ei gwmpasu hefyd lle mae ein gweithredoedd yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles neu lle mae risg o fywyd gwyllt yn trosglwyddo clefyd i anifeiliaid eraill neu i bobl.

**Mae'r Fframwaith yn gosod pum canlyniad strategol:**

- Mae gan Gymru anifeiliaid iach a chynhyrchiol
- Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da
- Mae gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y cynhyrchir bwyd ac yn y ffordd y diogelir iechyd y cyhoedd
- Mae gan Gymru economi wledig ffyniannus
- Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd uchel

Sefydlwyd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ym mis Mehefin 2014 i gefnogi cyflwyniad y Fframwaith. Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cryfhau'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill a chynrychiolwyr y diwydiant, gan gwmpasu'r holl heriau sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r aelodau'n gwneud cyfraniad allweddol at godi ac ystyried materion newydd a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau allweddol y Fframwaith, herio polisïau newydd, adolygu cynnydd canlyniadau, hwyluso a symleiddio'r broses o gyfathrebu negeseuon allweddol i grwpiau cynrychiolwyr a sefydliadau'r diwydiant a darparu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach.

Mae Cadeirydd newydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, Stephen James, yn dod â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i'r rôl. Fe'i cefnogir gan saith aelod arall sy'n cynrychioli pob math o sectorau a meysydd gwybodaeth.

**Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau allweddol a amlinellir yn y Fframwaith yn y ffordd ganlynol:**

- Codi ac ystyried materion newydd i gyflawni'r canlyniadau strategol yn Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Ystyried blaenoriaethau a chyflawni canlyniadau mewn perthynas â Brexit
- Herio a chefnogi polisïau newydd a rhai sy'n cael eu datblygu
- Cysylltu â rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau'n well
- Adolygu cynnydd yn gyson i nodi, cyflawni a hwyluso gwelliannau i brosiectau cysylltiedig

- Datblygu strategaeth gyfathrebu i symleiddio llif negeseuon a gwybodaeth allweddol
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau â grwpiau cynrychiolwyr a sefydliadau'r diwydiant, yr economi amaethyddol a gwledig ehangach a meysydd megis iechyd pobl, addysg, trechu tlodi ac ati
- Cyflawni rôl gynrychiadol i weithredu fel llefarydd ar faterion iechyd a lles anifeiliaid

Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid:
**llyw.cymru/grwp-fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cymru**

Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid:
**llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-iechyd-lles-anifeiliaid**





# Adolygiad o Gynllun Gweithredu 2017-19



Cafodd Cynllun Gweithredu 2017-18 ei ymestyn i gwmpasu 2018-19, a datblygwyd amryw o flaenoriaethau allweddol, gan gynnwys datblygu cam nesaf y Rhaglen Dileu TB Gwartheg (TB) a pharhau i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol i ddiogelu'r gadwyn fwyd ac iechyd y cyhoedd. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Dileu TB ar ei newydd wedd ym mis Hydref 2017, a oedd yn cynnwys mesurau uwch i waredu TB gwartheg yng Nghymru.

Fe wnaethom amlinellu amryw o flaenoriaethau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid megis Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs), Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd. Yn dilyn ymateb hynod gadarnhaol i ymgynghoriad cyhoeddus ar ddeddfwriaeth ddrafft i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol, cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Fil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) ar 8 Gorffennaf 2019. Nod y Bil yw mynd i'r afael â phryderon moesegol trwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ac, os caiff ei basio, bydd yn dod i rym ym mis Mai 2020.

Mae'r cysyniad o berchnogaeth gyfrifol yn rhan annatod o'r hyn a wnawn. Mae Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid wedi parhau i gael eu hadolygu a'u diweddaru, gyda chodau newydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Roedd y Cynllun yn cynnwys blaenoriaethau a fyddai'n cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru a blaenoriaethau a fyddai'n cael eu harwain a'u gweithredu gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Roedd ffocws allweddol Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn 2017-18 yn cynnwys Cynllunio Iechyd Anifeiliaid ac AMR. Parhaodd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gefnogi Strategaeth Pum Mlynedd y DU ar Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd, a sefydlodd y Bwrdd Cyflenwi AMR.

Yn ogystal, cefnogodd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid y diwydiant i ddatblygu cais i'r Cynllun Datblygu Gwledig i sicrhau cyllid ar gyfer gwaredu'r Clafr.

Daeth Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018 i rym ar 1 Hydref 2018, gan sicrhau bod rheoliadau domestig yn cyfateb i ofynion Ewropeaidd ar gyfer rheoli a gwaredu Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs), gan gynnwys Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE) a Chlefyd y Crafu. Gwnaeth Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid gyfraniad gwerthfawr yn y cyfnod drafftio ac ymgynghorol i sicrhau gweithrediad effeithiol.

Crëwyd cysylltiadau agosach rhwng Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a'r Great Britain Cattle Health & Welfare Group (CHAWG), a chyfrannwyd at waith Antimicrobial Usage Data Collection Sub-Group y CHAWG. Mae trafodaethau gyda'r Partneriaid Cyflenwi Milfeddygol yng Nghymru, Menter a Busnes ac Iechyd Da wedi dangos y potensial i wella safonau stiwardiaeth gwrthfiotig trwy ddarparu arweiniad ar ragnodi a rhoi meddyginiaethau i filfeddygon.

Darparodd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid rôl ymgynghorol werthfawr wrth ddatblygu cynigion i gyflwyno Cynllunio Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru, a lywiodd ddatblygiad menter Cynllunio Iechyd Anifeiliaid y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), HerdAdvance, a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig ac sydd â'r nod o helpu ffermwyr llaeth Cymru.

Mae rhai o lwyddiannau allweddol y Fframwaith yn dangos canlyniadau cydweithredu â'r diwydiant a phartneriaid eraill. Mae rhaglenni'n cael eu datblygu ar y cyd gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a Cyswllt Ffermio i godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r Fframwaith a helpu i'w cyflawni.

Arweiniodd cydweithredu pellach at ddatblygu Gwaredu BVD (cynllun gwaredu BVD a arweinir gan y diwydiant), sy'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd. Mae'r ymateb wedi bod yn galonogol iawn, gyda 6,999 o ffermydd Cymru wedi'u sgrinio am BVD hyd yma (mis Mai 2019).

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ac mae Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a'i Gynllun Gweithredu yn dangos ymrwymiad yn erbyn pob un o'r 7 nod; Cymru ffyniannus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang.

**Tabl 1: Nodau Llesiant a Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid**

I sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant. Mae Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y nodau hyn fel yr amlinellir yn Nhabl 1

| Nod | Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid |
|---|---|
| **Cymru ffyniannus** | Mae cadw da byw iach, a hynny'n unol â safonau lles uchel, yn cefnogi cyfleoedd marchnata a masnachu ac yn helpu ffermwyr i gynyddu eu helw, ac i gynnal a chreu swyddi. Mae achos o glefyd anifeiliaid yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr economi, a gall hynny achosi costau ac aflonyddwch sylweddol. |
| **Cymru gydnerth** | Un o'r prif egwyddorion sy'n sail i waith Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yw ei bod hi'n well atal clefyd na'i wella, ac y dylid lleihau'r risg o glefyd hyd yr eithaf drwy:<br>▪ Gynlluniau wrth gefn cadarn.<br>▪ Cynlluniau cadarn ar gyfer parhad busnes.<br>▪ Ymateb cadarn a chyflym i ddigwyddidau'n gysylltiedig â lles, fel nad oes angen ymyriadau dwys pellach. |
| **Cymru iachach** | Mae atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid yn cyfrannu at fwyd mwy diogel ac at wella iechyd y cyhoedd. Gall lleihau'r risg i bobl yn sgil clefydau fel salmonela, helpu i leihau'r galw ar y gwasanaethau iechyd, a'r angen am driniaeth gwrthfiotig. Mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r dull 'Un Iechyd' trwy fynd i'r afael ag agweddau ar y bygythiad AMR sy'n effeithio ar bobl, anifeiliaid a'r amgylchedd gyda'i gilydd.<br>Gall anifeiliaid hefyd gyfrannu at lesiant meddyliol a chorfforol pobl. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Gall anifeiliaid gyfrannu'n allweddol at gymdeithas sydd yn galluogi pobl i wireddu eu potensial, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Maent yn cyfrannu at lesiant pobl ac yn gallu helpu i leihau allgau cymdeithasol a grëir gan rwystrau cydraddoldeb megis anabledd, er enghraifft, mae anifeiliaid anwes therapi a chŵn cymorth yn galluogi pobl i fyw bywydau llawnach a mwy cynhwysol a dod yn rhan o'u cymuned ehangach. Yn yr un modd, gall y rhai sy'n wynebu rhwystrau dysgu neu ymddygiadol elwa ar wneud gwaith gwirfoddol a gofalu mewn lleoliadau amrywiol gydag anifeiliaid, gan ddatblygu cyfrifoldeb, sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol.<br>Mae cydnabod a gwerthfawrogi anifeiliaid fel bodau ymdeimladol yn hollbwysig i hyrwyddo a datblygu empathi, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae lleihau effaith clefydau anifeiliaid hyd yr eithaf yn helpu i ddiogelu cymunedau gwledig drwy gynnal busnesau fferm proffidiol – sy'n helpu i ddiogelu a chreu swyddi. |

| Nod | Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid |
|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Drwy weithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid cydymffurfir ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at y Gymraeg drwy Safonau'r Gymraeg. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang** | Mae AMR yn destun pryder difrifol a chynyddol ym maes meddyginiaeth filfeddygol ac ym maes iechyd cyhoeddus byd-eang. Ceir ymrwymiad drwy Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i gefnogi Strategaeth AMR 5 mlynedd Llywodraeth y DU i feddwl am yr hirdymor, gan weithio'n effeithiol gydag unigolion, cymunedau a'n gilydd i atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig. |

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu "Egwyddor Datblygu Cynaliadwy" sy'n dweud wrth sefydliadau sut i fynd ati i wneud eu dyletswydd o dan y Ddeddf. Bydd cadw at y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well ac yn fodd i osgoi ailadrodd camgymeriadau blaenorol ac i drechu rhai o'r heriau hirdymor o'n blaen.

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn gwneud cyfraniad mawr at gynaliadwyedd y sector da byw a'r diwydiant bwyd a ffermio ehangach ac, yn fwy cyffredinol, at gynaliadwyedd cefn gwlad, yr amgylchedd, cymunedau a'r economi. Nod Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yw gweithio i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel a ganlyn:

**Yr hirdymor :** Cytunwyd ar Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid am gyfnod o 10 mlynedd, ond mae'r canlyniadau strategol eu hunain yn rhoi gweledigaeth fwy hirdymor i ni.

**Atal:** Egwyddor allweddol sydd yn sail i Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yw ei bod hi'n well atal clefyd na'i wella er mwyn lleihau'r risg o glefyd. Does dim ots pa glefyd sy'n peri pryder i ni, mae'r drefn sylfaenol yr un peth:

- Cadw haint allan
- Adnabod clefydau yn gynnar
- Atal yr haint rhag lledaenu
- Cael gwared ar yr haint a/neu ddatblygu rhaglenni i reoli'r broblem

**Integreiddio:** Drwy gydol y gwaith o ddatblygu a gweithredu Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, mae gwaith wedi bod ar y gweill i ystyried sut y gallai polisïau/ymyriadau iechyd a lles anifeiliaid effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, a sut y gellir cynyddu'r effaith hon i'w heithaf drwy sefydlu cysylltiadau â meysydd eraill fel y Fframwaith Amaethyddol Strategol arfaethedig, Deddf yr Amgylchedd, yr Economi ac Iechyd y Cyhoedd.

**Cydweithio:** Er mwyn sicrhau llwyddiant Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, mae'n hollbwysig cydweithio mwy â'r diwydiant a phartneriaid eraill i gasglu, rhannu a defnyddio gwybodaeth er mwyn cytuno ar flaenoriaethau, canfod atebion (gan gynnwys atebion cost isel/dim cost) a gwneud penderfyniadau effeithiol. Drwy wneud hyn, byddwn yn cael cymaint o effaith â phosibl ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

**Cymryd rhan:** Mae gweithio mewn partneriaeth yn egwyddor allweddol i Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn annog pobl i gymryd rhan i ffurfio rhwydweithiau o bartneriaid. Gellir adeiladu'r rhwydweithiau ar draws y Llywodraeth, gweinyddiaethau eraill, asiantaethau darparu a hefyd gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant, y rhai sy'n cadw da byw a pherchnogion anifeiliaid eraill.

# Blaenoriaethau Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid 2019/20

## Cydnerthedd economaidd ac iechyd yn ystod y broses o ymadael â'r UE ac ar ôl hynny

### Cynllunio o ran Iechyd Anifeiliaid / Bioddiogelwch / Adnabod Anifeiliaid

**Perchenogaeth Gyfrifol**

- Codau Lles
- Bridio Cŵn
- Ymosodiadau ar Dda Byw
- Bil Arddangosfeydd Anifeiliaid a Syrcasau

**Atal Clefydau**

- Defnydd cynaliadwy o Feddyginiaethau: Ymwrthedd gwrthficrobaidd ac Anthelmintigau
- Goruchwylio Milfeddygol
- Rheoli Mewnforion
- Unedau Cwarantin

**Gwaredu Clefydau**

- Cynllunio wrth gefn
- TB gwartheg
- BVD
- Y clafr

## Tystiolaeth Fesuradwy / Manteision

# Cynllun Gweithredu 2019-20

## Cynllunio Iechyd Anifeiliaid

Un o brif egwyddorion Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yw "gwell atal na gwella". Mae mynd ati'n egnïol i atal clefyd a bygythiadau i les trwy baratoi cynlluniau iechyd anifeiliaid yn gallu dod â manteision mawr i fusnesau fferm unigol a'r diwydiant ehangach. Mae'r manteision hynny'n cynnwys safonau iechyd a lles uwch i'r anifeiliaid, cynhyrchiant ac elw uwch a busnesau cryfach sy'n gallu gwrthsefyll anawsterau'n well. Hefyd, mae mwy a mwy o ddefnyddwyr yn gofyn am safonau lles gwell ac mae llawer o gynlluniau gwarantu'r diwydiant yn gofyn am gynlluniau iechyd anifeiliaid ac adolygiad blynyddol gyda chyfraniad milfeddyg fel elfen orfodol.

Mae menter Cynllunio Iechyd Anifeiliaid yr AHDB, HerdAdvance, yn cael ei ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig fel rhan o'i Rhaglen Gwella Llaeth Cymru. Bydd HerdAdvance yn helpu tua 500 o ffermwyr llaeth Cymru i gyflwyno Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid i'w helpu i reoli eu busnes hyd at 2020. Ynghyd â'r fenter hon, mae Hybu Cig Cymru (HCC) wedi lansio Stoc Plus sy'n targedu cynhyrchwyr cig oen a chig eidion ledled Cymru gyda'r nod o wella'r dasg o gynllunio iechyd diadelloedd a buchesau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chefnogi gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid i sicrhau bod pob uned da byw yng Nghymru yn defnyddio Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid fel rhan annatod o'i busnes. Hanfod y cysyniad hwn yw sicrhau bod ceidwaid da byw yn deall yn glir fanteision Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid i'w busnes, gan weithio gyda'u milfeddyg preifat eu hunain i sicrhau bod cynlluniau iechyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion unigol y busnes fferm.

### Beth rydym am ei wneud?

Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi nodi rhai meini prawf allweddol ar gyfer Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid llwyddiannus, a fydd yn arwain ein holl waith yn y maes hwn:

- Rhaid bod perthynas gadarnhaol o ymddiriedaeth a pharch rhwng y ceidwad da byw a'i filfeddyg sy'n cydnabod bod gan y ddau wybodaeth a sgiliau gwerthfawr i'w cyfrannu at y broses
- Mae angen ymgynghori â gweithwyr proffesiynol eraill, megis maethegwyr ac arbenigwyr geneteg a llety anifeiliaid, lle bo hynny'n briodol
- Mae Cynllunio Iechyd Anifeiliaid yn seiliedig ar ddadansoddiad o berfformiad y fuches neu'r ddiadell, felly rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael
- Dylai'r dadansoddiad, a gynhelir gan y ceidwad a'i filfeddyg, nodi nifer fach (er enghraifft, rhwng un a phump) o feysydd i'w gwella, gyda'r rhai sydd â'r potensial mwyaf i wella eu perfformiad yn cael blaenoriaeth
- Ar gyfer pob un, dylai cynllun gweithredu gael ei baratoi, ei gytuno a'i weithredu, gyda mesurau, adolygiadau a diwygiadau rheolaidd hyd nes y bydd y gwelliant a ddymunir yn cael ei gyflawni a'i gynnal
- Yna, mae'r broses o ddadansoddi perfformiad a nodi mesur i'w wella, ei weithredu a'i adolygu yn cychwyn eto. Gallai'r cylch bara rhwng ychydig wythnosau a sawl blwyddyn, yn dibynnu ar y mesur sy'n cael ei drafod

### Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?

Hoffem sicrhau bod pob uned da byw yng Nghymru yn defnyddio Cynlluniau Iechyd Anifeiliaid fel rhan annatod o'i busnes. Byddwn yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael i gyfathrebu manteision Cynllunio Iechyd Anifeiliaid i ffermwyr a milfeddygon, gan gynnwys y Rhaglen Cyswllt Ffermio.

### Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

AHDB:
**ahdb.org.uk/herdadvance**

Hybu Cig Cymru:
**hccmpw.org.uk/cy**

## Bioddiogelwch

Bioddiogelwch yw'r term am sicrhau nad yw heintiau yn dod i mewn i'r fferm nac yn lledaenu o fewn y fferm nac oddi yno. Rhaid i'r broses Cynllunio Iechyd Anifeiliaid gynnwys adolygu dulliau rheoli bioddiogelwch ffermydd.

**Mae sawl elfen i'r broses hon, gan gynnwys:**

- Polisïau ar gyfer dod ag anifeiliaid i'r fferm: tarddiad diogel, asesu risg, cwarantin, profi a thrin
- Ffiniau'r fferm – sicrhau na all clefydau ledaenu dros ffiniau'r fferm
- Cerbydau a chyfarpar sy'n mynd a dod o'r fferm – mynedfa a llwybrau a gwahaniad oddi wrth yr anifeiliaid; diheintio
- Rheoli stoc drig a gwastraff fferm, gan gynnwys tail a slyri anifeiliaid a bwyd anifeiliaid, yn effeithiol
- Pobl sy'n mynd a dod o'r fferm – eu dillad a'u hesgidiau a chysylltiad â da byw eraill
- Rheoli bywyd gwyllt yn effeithiol, lle gallai fod risg o drosglwyddo clefyd, megis cadw adar allan o storfeydd bwyd

Er bod egwyddorion bioddiogelwch da yr un fath, mae angen addasu dulliau ar gyfer y gwahanol leoliadau lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw, er enghraifft, ar ffermydd, mewn marchnadoedd, mewn sioeau ac wrth gael eu cludo.

Mae pawb yn gyfrifol am fioddiogelwch, y tu hwnt i'r Llywodraeth a diwydiant. Mae unigolion yn gyfrifol am ddiogelu eu hunain a'r amgylchedd trwy gymryd camau i ddiogelu eu hunain ac unrhyw anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt.

Mae bioddiogelwch da yn atal lledaeniad clefydau anifeiliaid ac yn diogelu ffermydd unigol a grwpiau o anifeiliaid ac, o'i gymhwyso ar lefel genedlaethol, gwledydd cyfan. Mae'n diogelu iechyd y cyhoedd hefyd, yn enwedig pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â ffermydd da byw a sioeau.

Yr amddiffyniad cyntaf rhag clefydau heintus hysbysadwy difrifol fel Clwy'r Traed a'r Genau neu TB Gwartheg yw arferion bioddiogelwch da. Dylent fod yn rhan hanfodol o fywyd ffermio bob dydd, gan helpu i sicrhau bod anifeiliaid yn cadw'n iach a bod busnesau'n parhau i wneud elw.

**Mae bioddiogelwch yn dal i fod yn flaenoriaeth i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid gan ei fod yn:**

- Helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid
- Helpu i ddiogelu iechyd pobl
- Helpu'r diwydiant i reoli a gwaredu clefydau costus, gan ddiogelu'r diwydiant cyfan a lleihau'r gost i'r diwydiant a'r gymuned ehangach
- Helpu i leihau'r defnydd o wrthfiotigau a chynhyrchion fferyllol eraill
- Helpu ffermio i barhau, gyda mynediad cyhoeddus i gefn gwlad wedi'i gynnal, gan gefnogi cymunedau lleol

Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o arferion bioddiogelwch da a'r manteision y gall y rhain eu cyflwyno.



**Beth rydym am ei wneud?**

Y prif gerrig milltir ar gyfer 2019-20 yw:

- Parhau i weithio ar argymhellion yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Arolwg Bioddiogelwch, cynghori ynghylch y ffordd ymlaen a sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith
- Comisiynu arolwg arall i ailasesu lefel y ddealltwriaeth ynghylch bioddiogelwch. Cymharu'r canlyniadau ag arolwg gwreiddiol 2015 i weld pa feysydd sydd angen eu gwella, cynghori ar gynllun ar gyfer gweithredu'r gwelliannau hynny a chadw golwg ar sut mae'n cael ei gynnal
- Adolygu Llawlyfr y Ceidwaid Gwartheg a chynhyrchu llawlyfr ar gyfer ceidwaid defaid i hyrwyddo'r negeseuon allweddol ac arferion da
- Gofalu bod bioddiogelwch da'n parhau'n rhan ganolog o'r thema iechyd a lles anifeiliaid yn Cyswllt Ffermio ac unrhyw strategaethau trosfwaol perthnasol eraill
- Ystyried bioddiogelwch ceffylau fel rhan o'r ymgyrch gyffredinol ar gyfer bioddiogelwch, gan weithio gyda phartneriaid i sefydlu a hyrwyddo negeseuon allweddol
- Sicrhau bod bioddiogelwch yn cael y prif sylw mewn unrhyw gynigion a ddatblygir gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ystod 2019/20

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Hoffem weld gostyngiad ym mynychder clefyd a fydd yn adlewyrchu gwelliannau mewn mesurau bioddiogelwch.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**
**llyw.cymru/**

**llyw.cymru/bioddiogelwch-canllawiau**

**llyw.cymru/arolwg-bioddiogelwch-canlyniadau**

## Adnabod Anifeiliaid/ Cronfa Ddata Amlrywogaeth Cymru

Mae datblygiad EID Cymru fel system olrhain amlrywogaeth gyntaf Cymru yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ran y sector da byw yng Nghymru. Bydd manteision y system newydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â chlefydau'n gyflym, diogelu ein marchnadoedd allforio a lleihau costau achosion o glefyd.

Bydd uno'r systemau ar wahân ar gyfer gwartheg, defaid a moch yn bodloni gofynion Ewropeaidd, gan gefnogi parhad masnachu ar ôl Brexit. Bydd yn gwella'r gallu i olrhain os bydd achosion o glefyd ac yn gyfle arwyddocaol i ddiwydiant cig coch Cymru ddefnyddio'r data wedi'i wella er lles ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Er enghraifft, os yw'r data'n gadarn, mae patrymau'n dod i'r amlwg sy'n gallu caniatáu ymyriadau rhagfynegol yn seiliedig ar ble mae anifeiliaid yn debygol o fod ac yn debygol o fynd a ble mae'r ardaloedd â phroblem yn debygol o fod mewn unrhyw senario benodol. Yn ogystal, gall y dadansoddiad data hwn fod yn ddefnyddiol i'r diwydiant gyda gwaith cynllunio a rhagweld y gadwyn gyflenwi. Mewn amser, bydd cysylltu data symud anifeiliaid â statws iechyd a'r defnydd o feddyginiaethau yn darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi prynu gwybodus a defnydd doeth o gynhyrchion fferyllol.

**Beth rydym am ei wneud?**

Y bwriad yw lansio Cronfa Ddata Amlrywogaeth Cymru ym mis Medi 2020 ar gyfer gwartheg, gyda diwygiadau ar gyfer defaid a moch i ddilyn maes o law.

Mae rhaglenni ar wahân ar waith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gyflwyno gwasanaethau amlrywogaeth newydd yn lle'r gwasanaethau olrhain da byw presennol. Mae Gogledd Iwerddon yn uwchraddio ei seilwaith TG hefyd. Mae'r holl weinyddiaethau yn cydnabod pwysigrwydd masnach ar draws ffiniau mewnol y DU a'r ffaith y dylai data symdu gydag anifeiliaid. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl weinyddiaethau i sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, bod ein systemau yn cael eu datblygu gyda'i gilydd a bod y broses o drosglwyddo trefniadau adrodd o systemau gwartheg a moch presennol y DU yn cael ei rheoli'n effeithiol i sicrhau'r lefelau olrhain uchaf posibl.

## Dyfais Adnabod Electronig (EID) Buchol

Mae Comisiwn yr UE wedi cyhoeddi gwelliannau i'r rheoliadau ar gyfer adnabod a chofrestru gwartheg sy'n gofyn am ddyfeisiau adnabod



electronig buchol. Bydd cyfnod pontio o 5 mlynedd o'r pwynt mabwysiadu cyn i'r dyfeisiau adnabod electronig ddod yn ddulliau adnabod swyddogol, gan gynnwys rhanddirymiadau i reoli'r ffordd mae dyfeisiau adnabod electronig yn cael eu defnyddio ar gyfer gwartheg presennol neu wartheg wedi'u mewnforio sydd wedi'u tagio mewn ffordd gonfensiynol. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau'r DU i sicrhau cysondeb o ran y dull a'r lansiad lle bo hynny'n bosibl. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Rydym yn bwriadu lansio Cronfa Ddata Amlrywogaeth Cymru ym mis Medi 2020 ar gyfer gwartheg, gyda diwygiadau ar gyfer defaid a moch i ddilyn maes o law.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth??**

**www.eidcymru.org/eidcymru**

## Beth fydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

**Cynllunio Iechyd Anifeiliaid** — hyrwyddo pwysigrwydd Cynllunio Iechyd Anifeiliaid trwy ymgysylltu â grwpiau cynrychiadol a sefydliadau'r diwydiant i sicrhau bod pob uned da byw yng Nghymru yn defnyddio hyn fel rhan annatod o'i busnes.

**Bioddiogelwch** — helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y metrigau/mesurau a all fod ar gael gyda'r nod o argymell mesurau bioddiogelwch ymarferol, ystyrlon a defnyddiol i'w defnyddio yn y dyfodol. Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o arferion bioddiogelwch da a'r manteision y gall y rhain eu cyflwyno. Helpu i weithredu'r argymhellion a amlinellir yn yr Adroddiad ar Ganlyniadau'r Arolwg Bioddiogelwch, comisiynu arolwg pellach a'r cynllun gweithredu dilynol ac adolygu llawlyfr y ceidwaid gwartheg.

**Adnabod Anifeiliaid** — cefnogi datblygiad system olrhain amlrywogaeth gyntaf Cymru trwy ddarparu cyngor ac arweiniad yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r lansiad. Annog y diwydiant i ymgysylltu â'r ymgynghoriad i sicrhau bod dull gweithredu cadarn ond ymarferol yn cael ei gyflawni. Sicrhau bod data ar iechyd anifeiliaid a'r defnydd o feddyginiaethau yn cael eu cynnwys yn y rhaglen i'r dyfodol.

# Bod yn Berchnogion Cyfrifol

Mae Lles Anifeiliaid yn faes polisi cwbl ddatganoledig a lywodraethir yn bennaf gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y Ddeddf).

O dan y Ddeddf, mae gan berchnogion a cheidwaid anifeiliaid ddyletswydd gyfreithiol i ofalu am yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt, boed hynny'n barhaol neu dros dro. Mae person yn gyfrifol am anifail os yw'n berchen arno neu'n gyfrifol amdano. Mae cyfrifoldeb dros anifail yn cynnwys dealltwriaeth o'i anghenion iechyd a lles penodol a bod â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol i ofalu am yr anifail. Yn ogystal, rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am anifeiliaid gydymffurfio â deddfwriaeth, bod yn ymwybodol o'r Cod Ymarfer Lles priodol a gwybod pryd a ble i gael cyngor a help cymwys e.e. gan filfeddyg.



**Mae'r Ddeddf yn amlinellu sut mae'n rhaid i berchennog cyfrifol sicrhau bod anghenion lles ei anifeiliaid yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys yr angen:**

- Am amgylchedd addas (lle i fyw)
- Am ddeiet addas
- I arddangos patrymau ymddygiad normal
- I gael eu cadw gyda, neu ar wahân i, anifeiliaid eraill (os yn berthnasol)
- I gael eu diogelu rhag poen, anaf, dioddefaint a chlefyd

Mae'r ddeddfwriaeth yn eang ac yn cwmpasu unrhyw anifail sydd fel arfer wedi'i ddomestigeiddio neu sydd mewn caethiwed. Felly, mae hyn yn cynnwys anifeiliaid gwyllt os ydynt, er enghraifft, yn cael eu cadw mewn sw neu'n cael eu defnyddio fel adloniant megis mewn Arddangosfa o Anifeiliaid.

**Mae gan berchnogaeth anghyfrifol y potensial i greu problemau pellgyrhaeddol megis:**

- Problemau lles i'r anifeiliaid
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â phroblemau amgylcheddol a baeddu
- Costau ychwanegol i Awdurdodau Lleol
- Mwy o faich ar sefydliadau lles
- Problemau diogelwch pobl (yn sgil clefydau ac ymosodiadau gan anifeiliaid)

Mae'n ymddangos bod llawer o'r materion hyn yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Ddeddf. Fodd bynnag, rhaid cydnabod effaith ganlyniadol safonau lles gwael.

Mae bod yn berchen ar anifail yn fraint, nid yn hawl, ac mae angen newid diwylliannol i sicrhau bod pobl yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gweithredoedd wrth ddewis anifail anwes a gofalu amdano. Mae'n amlwg bod bod yn berchen ar anifail yn cyflwyno manteision cadarnhaol i bobl ac yn gallu gwella ansawdd eu bywyd. Dylai'r cysyniad o berchnogaeth gyfrifol fod yn rhan annatod o bob polisi lles anifeiliaid.



## Codau Ymarfer Lles

Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Codau Ymarfer i hyrwyddo lles anifeiliaid anwes a da byw. Bwriad y codau yw annog y rhai sy'n gyfrifol am anifeiliaid i fabwysiadu'r safonau uchaf o ran hwsmonaeth. Mae Codau Ymarfer Llywodraeth Cymru yn darparu arweiniad ar sut i ofalu am bob math o anifeiliaid er mwyn bodloni'r safon gofal sy'n ofynnol o dan y gyfraith. Mae'r codau'n amlinellu'r camau sydd angen eu cymryd i sicrhau bod yr anifail yn cael ei ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd, a rôl y milfeddyg mewn perthynas â gofal yr anifail. Mae'r angen am i gamau priodol gael eu cymryd o ran brechiadau, rheoli parasitiaid a gofal rheolaidd wedi'i amlinellu'n llawn.

### Beth rydym am ei wneud?

Mae codau wedi'u cyhoeddi ar gyfer ceffylau, cŵn, cathod, cwningod, gwartheg, defaid, moch, ieir dodwy ac adar hela. Cyhoeddwyd Codau wedi'u diweddaru ar gyfer ceffylau a chŵn yn 2018, ac mae gwaith yn parhau i ddiwygio Codau presennol ar gyfer cathod, moch, ieir dodwy a chwningod, ac mae cod newydd ar gyfer ieir bwyta yn cael ei ddrafftio. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag AWNW i gynhyrchu Cod Ymarfer gwirfoddol ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid (Llochesau) yng Nghymru. Yn ogystal, mae AWNW yn datblygu cod gwirfoddol ar gyfer milgwn rasio a phrimatiaid ac yn diwygio Cod Ymarfer presennol Llywodraeth Cymru ar Les Cwningod.

### Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?

Hoffem hwyluso gwell dealltwriaeth o gyfrifoldeb perchnogaeth anifeiliaid, anghenion anifeiliaid a sut i ofalu amdanynt i leihau nifer yr achosion o les gwael.

### Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Codau Ymarfer:
**llyw.cymru/lles-anifeiliaid**

## Bridio / Gwerthu Cŵn gan Drydydd Partïon

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 wedi helpu i orfodi ein hymrwymiad i sicrhau safonau lles uchel mewn sefydliadau bridio cŵn yng Nghymru. Cyflwynodd y Rheoliadau feini prawf mwy caeth ar gyfer bridwyr trwyddedig, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer cymdeithasoli, cynlluniau uwch ac ymddeol geist bridio mewn ffordd briodol.

Ymhellach i'r Rheoliadau, mae yna bryderon bod gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partïon masnachol yn gysylltiedig ag amodau lles gwaeth i'r anifeiliaid o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Er enghraifft, gall hyn gynnwys cyflwyno sawl amgylchedd newydd ac anghyfarwydd a'r tebygolrwydd cynyddol y bydd y cŵn bach neu'r cathod bach yn gorfod ymgymryd â sawl taith. Gall y rhain i gyd gyfrannu at risg uwch o glefyd a diffyg cymdeithasoli a chynefino i'r cŵn bach a'r cathod bach.

Mae ymgyrch i wahardd gwerthu cŵn bach gan drydydd partïon, "Cyfraith Lucy", yn galw am waharddiad ar werthu cŵn bach gan siopau anifeiliaid a gwerthwyr masnachol trydydd parti eraill.

Mae'r term 'masnachol' yn golygu gwerthu fel rhan o fusnes, am elw. Mae gwerthwyr trydydd parti yn werthwyr; pobl nad ydynt wedi bridio'r cŵn ac sy'n gweithredu fel 'canolwyr' rhwng y bridwyr a'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, gall cŵn bach a chathod bach gael eu prynu naill ai trwy werthwr trydydd parti, yn uniongyrchol gan fridiwr neu o ganolfan achub/ailgartrefu. Nid oes unrhyw gofnodion cenedlaethol o nifer y cŵn bach a chathod bach a werthir trwy drydydd partïon, ond amcangyfrifir bod rhwng 40,000 ac 80,000 o gŵn bach yn cael eu gwerthu fel hyn ym Mhrydain bob blwyddyn.

**Beth rydym am ei wneud?**

Lansiwyd ymgynghoriad i grynhoi gwybodaeth am y gadwyn gyflenwi ar gyfer cŵn bach a chathod bach ym mis Chwefror 2019, a bu'n rhedeg tan 17 Mai 2019.

Cafwyd dros 300  o ymatebion, a bydd y rhain yn helpu i nodi meysydd lle gallai ymyrraeth Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf. Caiff cynigion eu cyflwyno i'r Gweinidog yn ystod hydref 2019.

Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisi neu ddeddfwriaeth yn destun asesiad effaith llawn ac ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o'r diwydiant.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Bydd swyddogion yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion allweddol a dderbynnir trwy'r broses ymgynghori a bydd cynigion yn cael eu darparu i'r Gweinidog yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ein nod yw sicrhau'r safonau iechyd a lles uchaf ar gyfer cŵn bach a chathod bach a werthir yng Nghymru. Hoffem weld gostyngiad yn nifer yr achosion o les gwael yn ymwneud â bridio a bywydau cynnar cŵn a chathod a welir gan filfeddygon a sefydliadau lles.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

Ymgynghoriad:
**llyw.cymru/gwerthiant-trydydd-parti-cwn-chathod-bach**



## Ymosodiadau ar Dda Byw

Mae'r ddeddfwriaeth ar y pwnc hwn yn gymysgedd o elfennau datganoledig ac annatganoledig, ond nid yw'r mater penodol o'r heddlu yn gorfodi Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 wedi'i ddatganoli. O dan Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953, mae perchennog ci yn cyflawni trosedd os yw ei gi yn poeni da byw ar dir amaethyddol. Mewn caeau neu unedau caeedig lle mae defaid, rhaid i gi gael ei gadw ar dennyn neu o dan reolaeth agos.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ofyniad deddfwriaethol ar i bob ci gael microsglodyn o 8 wythnos oed trwy Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 a ddylai gynorthwyo olrhain

unrhyw gŵn strae neu gŵn heb eu perchennog. Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad ar i gi fod â choler a thag gyda rhif ffôn cyswllt arno.

**Beth rydym am ei wneud?**

Mae'r cynnydd mewn ymosodiadau ar dda byw a'r gost (nid yn unig yn ariannol ond hefyd y gost emosiynol i'r rhai sy'n berchen ar dda byw sydd wedi marw neu wedi'u hanafu, neu sy'n dod o hyd iddynt) yn gwbl annerbyniol, ynghyd â'r goblygiadau lles anifeiliaid. Mae perchnogaeth gyfrifol ac ymosodiadau gan gŵn, boed hynny ar dir amaethyddol ai peidio, yn fater rydym yn ei gymryd o ddifrif.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddau cefn gwlad yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi a chefnogi gwaith ac ymrwymiad Tîm Troseddau Cefn Gwlad Heddlu Gogledd Cymru a'r gwaith partneriaeth a sefydlwyd gyda Llywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael â throseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelodau o Grŵp Troseddau Da Byw Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) gyda rhanddeiliaid allweddol eraill sy'n cynnwys Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), a byddant yn parhau i weithio mewn ffordd gydweithredol i fynd i'r afael â'r mater difrifol hwn. Mae Grŵp Troseddau Da Byw NPCC yn disgwyl barn Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y defnydd o ddeddfwriaeth amgen i fynd i'r afael ag ymosodiadau gan gŵn ar dda byw.

**Beth rydym am ei wneud?**

Mae angen cydweithio i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac ni ellir ei gyflawni trwy ddeddfwriaeth yn unig. Mae bod yn berchen ar gi yn fraint, nid yn hawl, a rhaid i berchnogion ymrwymo i'r cyfrifoldeb o sicrhau bod eu hanifeiliaid yn cael eu cymdeithasoli'n iawn.

Mae hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn cynhyrchu amryw o Godau Ymarfer ar gyfer anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm, gan gynnwys cŵn. Mae'r Cod ar gyfer cŵn, a ddiweddarwyd ym mis Tachwedd 2018, yn atgoffa perchnogion o'u rhwymedigaethau yn ymwneud â rheoli eu hanifeiliaid anwes a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda sefydliadau amaethyddol a chefn gwlad megis NFU Cymru, FUW, y Gynghrair Cefn Gwlad a llawer mwy. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnal ymgyrchoedd yn rheolaidd, yn enwedig cyn y tymor wyna, i annog perchnogion cŵn i fod yn gyfrifol. Mae AWNW, a redodd ymgyrch wych y llynedd o'r enw Anifeiliaid, y Tir a Chi, yn atgynhyrchu eu harwyddion i ffermwyr yn cynghori perchnogion cŵn i;

- Fod yn ymwybodol y gall eu cŵn anafu neu godi ofn ar anifeiliaid fferm
- Cadw eu ci ar dennyn o gwmpas anifeiliaid fferm
- Mynd â'u gwastraff adref gyda nhw

Bydd yr arwyddion hyn ar gael yn rhad ac am ddim yn siopau Wynnstay, trwy aelodau AWNW ac mewn digwyddiadau megis Sioe Frenhinol Cymru.



Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn Lloegr i sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth yn berthnasol i bwerau datganoledig Cymru.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

**llyw.cymru/y-cod-ymarfer-er-lles-cwn**

## Arddangosfeydd o Anifeiliaid a'r Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)

Mae pryderon nad yw safonau lles yn cael eu hasesu'n rheolaidd mewn Arddangosfeydd o Anifeiliaid (AEs). Yn 2017, lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs). Gofynnwyd hefyd am farn pobl ar wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

**Beth rydym am ei wneud?**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddodd y Gweinidog ei bwriad i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer MAEs yng Nghymru, a nododd y bydd gweithredu'r cynllun hwnnw yn cael effaith hirdymor ar les yr anifeiliaid a ddefnyddir mewn arddangosfeydd o'r fath ac ar agweddau cenedlaethau'r dyfodol at berchnogion anifeiliaid yng Nghymru.

Cynhaliwyd adolygiad o gwmpas y polisi MAE ym mis Ebrill 2019 cyn drafftio'r Rheoliadau. Diben yr adolygiad oedd asesu perthynas y polisi â darnau eraill o waith presennol a phosibl. Penderfynwyd ehangu'r cwmpas i gynnwys yr holl Arddangosfeydd o Anifeiliaid sy'n bodloni meini prawf penodol, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar Reoliadau drafft yn cael ei gynnal yn ystod haf 2019.

Bydd y cynllun trwyddedu yn darparu ar gyfer cynnal archwiliadau i sicrhau bod safonau lles da yn cael eu cynnal a bod anifeiliaid yn cael eu harddangos mewn ffordd sy'n annog agweddau parchus a chyfrifol tuag at bob rhywogaeth.

Nid oes unrhyw syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, ond maent yn ymweld â Chymru o bryd i'w gilydd a, bob tro y maent yn gwneud hynny, mae galwadau o'r newydd am i'r arfer gael ei wahardd. Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Prif Weinidog Ddatganiad Llafar ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol, gan gyhoeddi y byddai Bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad yn y 12 mis nesaf. Yn dilyn ymateb hynod gadarnhaol i ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddeddfwriaeth ddrafft hon, cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) ar 8 Gorffennaf 2019. Nod y Bil yw mynd i'r afael â phryderon moesegol trwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol. Mae syrcasau teithiol wedi bod yn teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig ers dros 200 mlynedd a byddant yn parhau i gael croeso cynnes yng Nghymru, cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid:
**llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid**

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru):
**llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio**

## Beth fydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

**Bod yn Berchnogion Cyfrifol —** cyflawni rôl gynrychiadol fel llefarydd ar faterion iechyd a lles anifeiliaid, gan gefnogi newid addysgol ac ymddygiadol.

**Cyflawni rôl gynrychiadol i Lywodraeth Cymru i;**

- Ddiwygio codau ymarfer presennol a chynhyrchu cod ymarfer Newydd ar gyfer Sefydliadau Lles Anifeiliaid (Llochesau) mewn cydweithrediad ag AWNW
- Datblygu cynigion i sicrhau safonau iechyd a lles caeth ar gyfer gwerthu cŵn bach a chathod bach gan drydydd partïon masnachol
- Datblygu cynllun trwyddedu ar gyfer Arddangosfeydd o Anifeiliaid

# Atal Clefydau



Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn parhau i hyrwyddo diogelwch rhag datblygiad a lledaeniad clefydau anifeiliaid heintus a phwysigrwydd cynlluniau wrth gefn i ymdrin ag achosion posibl o glefyd yng Nghymru, gan gynnwys clefydau egsotig hysbysadwy megis Clwy'r Traed a'r Genau (FMD), Ffliw Adar a'r Tafod Glas. Mae'r angen i sicrhau cydnerthedd a diogelu ein heconomi amaethyddol yn hanfodol yn ystod y cyfnod pontio hwn wrth i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn parhau i ymgysylltu ag asiantaethau cyflenwi, y diwydiant amaethyddol, asiantaethau trydydd sector a rhanddeiliaid cymunedau gwledig i ddarparu tystiolaeth a chyngor i gefnogi datblygiad polisi Llywodraeth Cymru ac i barhau i leihau'r risg o achosion o glefydau anifeiliaid a'r amharu economaidd a gweithredol posibl.

Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi ymrwymo i gefnogi lliniaru'r effaith negyddol y gallai clefydau anifeiliaid ei chael ar y gallu i farchnata cynnyrch Cymru mewn cyfleoedd masnachu yn y dyfodol ac i ddatblygu a hyrwyddo cynnyrch lleol.

## Defnyddio Meddyginiaethau mewn ffordd Gynaliadwy – Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd a Meddyginiaethau Lladd Llyngyr

Mae meddyginiaethau anifeiliaid yn gwneud cyfraniad pwysig at reoli ac atal clefyd a dioddefaint anifeiliaid. Mae ganddynt y potensial i achosi niwed os na chânt eu defnyddio'n iawn. Yn y DU, mae defnyddwyr wedi mwynhau manteision systemau llym a ddyluniwyd i'w diogelu rhag gweddillion meddyginiaethau niweidiol yn eu bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau rheoli statudol ar awdurdodi, dosbarthu a defnyddio meddyginiaethau.

### Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd

Mae gwrthfiotigau yn feddyginiaethau hollbwysig i iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae AMR yn bryder difrifol ac mae angen i wrthfiotigau gael eu defnyddio'n gyfrifol ym mhob sector, gan gynnwys cynhyrchu da byw, i helpu i fynd i'r afael â'r broblem. Ni ddylai gwrthfiotigau gael eu defnyddio yn lle arferion rheoli fferm da. Nid yw defnyddio gwrthfiotigau yn gyson i atal clefydau yn ddefnydd cyfrifol o'r meddyginiaethau pwysig hyn.

Mae cynnydd a lledaeniad AMR yn fygythiad i'r gallu i reoli heintiau mewn pobl ac mewn anifeiliaid. Mae effeithiau peidio â mynd i'r afael ag AMR yn eang ac yn gostus iawn, nid yn unig o safbwynt ariannol ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogelu cyflenwadau bwyd, llesiant amgylcheddol a datblygu economaidd-gymdeithasol.

Mae AMR yn bryder cynyddol i iechyd anifeiliaid ac yn fygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd yn fyd-eang. Gwrthfiotigau yw'r unig ffordd effeithiol o drin amryw o glefydau anifeiliaid, felly maent yn hollbwysig o ran sicrhau iechyd a lles anifeiliaid. Mae Rheoliadau Meddyginiaeth Filfeddygol (gan gynnwys gwrthfiotigau) yn cael eu gosod ar hyn o bryd gan Gyfarwyddeb yr UE a'u hymgorffori yng nghyfraith y DU gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol.

Mewn ymateb i fygythiad AMR, yn 2013 cyhoeddodd Llywodraeth y DU strategaeth pum mlynedd i fynd i'r afael ag AMR gan ddefnyddio dull traws-sector cwbl integredig. Yng Nghymru, datblygwyd Cynllun Cyflenwi AMR pum mlynedd ar gyfer y GIG i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth.

Ym mis Ionawr 2019 yn Fforwm Economaidd y Byd, lansiodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gynllun Gweithredu Cenedlaethol (NAP) Pum Mlynedd y DU ar gyfer 2019 – 2024.

Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Lywodraeth y DU i ddatgan eu cymeradwyaeth a'u cefnogaeth ar gyfer gweledigaeth 20 mlynedd a chynllun gweithredu 5 mlynedd AMR y DU.

Bydd hyn yn adeiladu ar gyflawniadau strategaeth 2013-2018 ac yn amlinellu uchelgeisiau a chamau gweithredu heriol ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac, yn bwysicach na dim, yn mabwysiadu dull Un Iechyd ar draws pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd.

**Beth rydym am ei wneud?**

Sefydlwyd Grŵp Cyflenwi AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd ar gyfer Cymru ar 13 Mai 2019. Argymhellodd y Grŵp Cyflenwi AMR Gynllun Gweithredu AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a gytunwyd ac a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.

Bydd y Cynllun Gweithredu a'r Grŵp Cyflenwi AMR newydd yn darparu cyfraniad Cymru at Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd y DU. Bydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr meddygol ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru i sicrhau dull "Un Iechyd" cwbl gydgysylltiedig o fynd i'r afael â bygythiad ymwrthedd i wrthfiotigau.

Nodau Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw:

- Lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau mewn anifeiliaid trwy atal heintiau
- Lleihau datblygiad a lledaeniad ymwrthedd i wrthfiotigau mewn anifeiliaid ac yn yr amgylchedd
- Sicrhau bod gwrthfiotigau yn cael eu defnyddio mewn ffordd mor gynaliadwy â phosibl mewn anifeiliaid
- Sicrhau gallu goruchwylio digonol i ddarparu'r wybodaeth sy'n ofynnol i reoli ymwrthedd i wrthfiotigau
- Cydweithio ag eraill i ddarparu gwrthfiotigau effeithiol yn y dyfodol

Mae cynnydd a lledaeniad AMR yn fygythiad difrifol i'r gallu i reoli heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd, yn y gymuned ehangach ac mewn anifeiliaid.

Y gobaith yw y bydd dull cydgysylltiedig rhwng y llywodraeth, ceidwaid anifeiliaid a milfeddygon yn atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus ac yn lleihau'r angen am y gwrthfiotigau a ddefnyddir i'w trin.

Bydd Grŵp Cyflenwi AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd yn adrodd i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid ac i'r Grŵp Llywio AMR / Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru, a gadeirir gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, gyda Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru yn aelod.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i godi ymwybyddiaeth a gwella addysg ar y defnydd priodol o wrthfiotigau. Mae gan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid gynrychiolaeth ar is-grŵp CHAWG ar gasglu data ar y defnydd o wrthfiotigau.

Dylai'r pwyslais fod ar hyrwyddo cynaliadwyedd: mae arferion rheoli fferm da, bioddiogelwch, strategaethau brechu priodol ac arferion hylendid yn hollbwysig i leihau'r achosion o glefydau a lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau.

Un datblygiad pwysig ac adeiladol mewn perthynas â rheoli ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd yw cynnwys gofyniad newydd i adolygu'r defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y prif gynlluniau gwarant fferm. Cynhelir yr adolygiad hwn bob blwyddyn o leiaf gan y ceidwad da byw a'i filfeddyg. Mae'n cynnwys cynllunio i sicrhau bod gwrthfiotigau yn cael eu defnyddio'n briodol ar gyfer pob rhywogaeth (a meddyginiaethau lladd llyngyr ar gyfer defaid a gwartheg bîff yn unig). Mae gofyn newydd Cynllun Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru (FAWL) i gynnal adolygiad blynyddol yn ffordd o gael cyngor milfeddygol ar reoli ymwrthedd i feddyginiaethau lladd llyngyr mewn unedau ffermydd defaid a gwartheg bîff sydd ond wedi cael ychydig o fewnbwn gan filfeddyg yn y gorffennol.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Gostyngiad yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd gyda gwelliant mewn safonau iechyd a sicrwydd parhaus o ran safonau lles da, gyda mynediad parhaus i gyffuriau gwrthficrobaidd pan fo angen.



I Gynlluniau Iechyd Anifeiliaid rheolaidd ac adolygiadau milfeddygol blynyddol ddod yn rhan annatod o'r gwaith o reoli ffermydd da byw yng Nghymru.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

**llyw.cymru/grwp-cyflawni-ar-ymwrthedd-gwrthficrobaidd-mewn-anifeiliaid-ar-amgylchedd**

**wlbp.co.uk/index.php/en/**

## Meddyginiaethau lladd llyngyr

Mae defnyddio meddyginiaethau lladd llyngyr effeithiol a chadw at drefniadau pori wedi cadw llyngyr o dan reolaeth lwyddiannus yn y rhan fwyaf o ddiadelloedd yn y DU am flynyddoedd lawer. Ond mae ein dibyniaeth ar y triniaethau hyn wedi arwain at ymwrthedd i'r meddyginiaethau a ddefnyddir. Gwelir mewn mwy a mwy o ddiadelloedd nad yw nifer o'r triniaethau'n gweithio mwyach i ladd rhai mathau o lyngyr.

Cafodd ymwrthedd i'r tri dosbarth hynaf o feddyginiaethau ei ganfod mewn diadelloedd yng Nghymru yn ystod astudiaeth a gwblhawyd yn 2015. Mae dau ddosbarth mwy newydd o feddyginiaethau lladd llyngyr wedi'u trwyddedu ar gyfer defaid yn y DU, ac fe'ch cynghorir i'w defnyddio ar gyfer cwarantin ac fel triniaeth canol tymor i ymestyn effeithiolrwydd y dosbarthiadau eraill o feddyginiaethau lladd llyngyr.

Mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn cydnabod bod ymwrthedd i feddyginiaethau lladd llyngyr yn fygythiad cynyddol i ffermydd defaid, a bod y clafr yn cael ei ystyried fel bygythiad mawr sy'n cyfrannu at y broblem hon.

**Beth rydym am ei wneud?**

Mae'r Ganolfan Arbenigedd mewn Da Byw o dan Reolaeth Llai Dwys wedi'i sefydlu yng Nghanolfan Ymchwil Filfeddygol Caerfyrddin yn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae'r Ganolfan yn darparu gallu labordy i ddiagnosio clefyd parasitig ac i bennu ymwrthedd i feddyginiaethau lladd llyngyr. Mae'n cryfhau yn sylweddol ein cydnerthedd i fynd i'r afael â heriau ymwrthedd i feddyginiaethau.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Hoffai Llywodraeth Cymru gyflawni'r canlyniadau canlynol;

- Clefydau parasitig i gael eu hatal yn effeithiol, neu eu rheoli o leiaf, yng Nghymru
- Meddyginiaethau lladd llyngyr ond i gael eu defnyddio pan fo angen, ac atal clefydau parasitig yn hytrach na'u gwella
- Sicrhau bod y feddyginiaeth lladd llyngyr iawn yn cael ei rhoi i'r anifeiliaid iawn ar yr amser iawn

Bydd y rhain o fudd i'r anifeiliaid sy'n wynebu risg o glefyd, eu perchnogion (a fydd yn elwa yn ariannol trwy lefelau cynhyrchiant uwch a llai o wariant ar driniaethau aneffeithiol) a'r amgylchedd trwy leihau effeithiau niweidiol meddyginiaethau lladd llyngyr a ysgerthir gan anifeiliaid sydd wedi'u trin.

Dylai hyn oll gael ei wneud trwy Gynlluniau Iechyd Anifeiliaid da a arweinir gan gamau gweithredu fel ymdrech ar y cyd rhwng y ceidwad da byw a'i filfeddyg.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda chynlluniau gwarant fferm i grynhoi gwybodaeth, am y tro cyntaf, am y defnydd o feddyginiaethau lladd llyngyr ar ffermydd defaid a gwartheg bîff Cymru.

Byddwn yn bachu hefyd ar gyfleoedd sy'n codi o weithgareddau ymgysylltu presennol â cheidwaid da byw (megis cyfarfodydd cyfnewid gwybodaeth Cyswllt Ffermio) i grynhoi gwybodaeth a chael adborth a syniadau.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

Defaid
**scops.org.uk**

Gwartheg
**Hyrwyddo Rheoli Parasitiaid Gwartheg yn Gynaliadwy - COWS cattleparasites.org.uk**

## Cadw Gwyliadwriaeth Filfeddygol

Mae pedair egwyddor yn gysylltiedig â sicrhau bod clefydau heintus yn cael eu rheoli;

1. Eu cadw allan
2. Eu canfod yn gynnar (gwyliadwriaeth)
3. Eu hatal rhag lledaenu
4. Eu gwaredu

Mae cadw gwyliadwriaeth filfeddygol yn helpu i ganfod ac ymchwilio i glefydau newydd neu glefydau sy'n codi unwaith eto, gan nodi bygythiadau i iechyd a lles anifeiliaid. Yn ogystal, mae'n ein galluogi i ddeall patrymau clefydau a monitro iechyd poblogaethau anifeiliaid. Yn gryno, mae'n galluogi;

- Canfod bygythiadau newydd a rhai sy'n codi unwaith eto, gan gynnwys canfod clefydau hysbysadwy yn gynnar
- Nodi bygythiadau sy'n dod o anifeiliaid i iechyd pobl ac i ddiogelwch bwyd, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd
- Monitro tueddiadau clefydau endemig i lywio'r gwaith o'u rheoli
- Canfod newidiadau i'r ffordd mae clefydau yn amlygu eu hunain mewn poblogaethau anifeiliaid
- Dadansoddiad o sut mae bygythiadau wedi datblygu (epidemioleg)
- Sicrwydd o ran y statws iechyd anifeiliaid lefel fferm a chenedlaethol sy'n ofynnol i alluogi masnach ryngwladol

Mae clefydau a'r cyfryngau sy'n eu hachosi yn newid o hyd, felly mae angen cadw gwyliadwriaeth barhaus.

Mae gwyliadwriaeth clefydau yn cael ei chynnal mewn un o ddwy brif ffordd:

### Gwyliadwriaeth weithredol

Dyma'r dull a ddefnyddir pan fo'r bygythiad yn hysbys a'r nod yw nodi faint ohono sy'n bresennol neu i ddeall ei ddosbarthiad yn well. Fe'i cyflawnir trwy arolygon neu astudiaethau strwythurol, er enghraifft, arolygon rheolaidd o salmonelosis mewn ffermydd dofednod. Mae'n weithgarwch a gynllunir o'r brig i'r bôn gyda'r ymchwiliad yn cael ei gynllunio gan natur a chwmpas y clefyd. Mae gwyliadwriaeth weithredol yn cael ei chomisiynu fel arfer trwy ofynion rheoleiddio, ac fe'i darperir yn bennaf gan APHA.

### Gwyliadwriaeth sganio (cyfeirir ati hefyd fel gwyliadwriaeth oddefol neu rybudd cynnar)

Dyma'r dull a ddefnyddir i ganfod bygythiadau anhysbys, megis presenoldeb clefydau newydd neu newid mewn patrymau clefydau presennol. Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am yr anifail adrodd pan mae'n sylwi ar symptomau a sbarduno diagnosis milfeddygol.

Mae archwiliadau labordy ac archwiliadau ar ôl lladd (PME) yn tueddu i fod yn bwysig ar gyfer gwyliadwriaeth sganio effeithiol, gan ddarparu gwybodaeth ddiagnostig i'r perchennog a'i filfeddyg. Ni all ddarparu data dilys yn ystadegol, fel sy'n digwydd gyda gwyliadwriaeth weithredol, ond dyma'r unig ffordd o ganfod bygythiadau newydd. Ar gyfer anifeiliaid a ffermir, cynhelir gwyliadwriaeth sganio gan APHA a'i darparwyr PME arbenigol, trwy ddarparu gwasanaethau diagnostig i filfeddygfeydd.

Ein nod yw sicrhau bod gan Gymru y gallu a'r capasiti ar gyfer gwyliadwriaeth effeithiol fel bod modd canfod bygythiadau, eu nodweddu a'u rheoli'n effeithiol. Mae hyn yn gofyn am gyfraniad gan:

- Geidwaid da byw
- Y gadwyn fwyd ehangach
- Milfeddygon mewn practisau clinigol
- Gwasanaethau diagnostig labordy a PME
- Dadansoddwyr data
- Perchnogion polisi

**Beth rydym yn ei wneud?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd y camau canlynol:

- Cysylltu â Defra i sicrhau bod darpariaeth gwyliadwriaeth sganio yng Nghymru a Lloegr yn canfod risgiau sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid trwy'r Prosiect Darparu Gwyliadwriaeth Sganio
- Trwy Fforwm Gwyliadwriaeth y DU, gweithio gyda Gweinyddiaethau eraill i ddarparu trosolwg o ofynion gwyliadwriaeth clefydau anifeiliaid y DU ac i sicrhau eu bod yn cael eu bodloni
- Cefnogi Prosiect Ymgysylltu Gwyliadwriaeth APHA i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision gwyliadwriaeth ymhlith ceidwaid da byw a milfeddygon yng Nghymru.
- Parhau i gydweithredu ag APHA ar ddatblygiad parhaus eu Canolfan Arbenigedd yng Nghaerfyrddin
- Gweithio gydag APHA a Defra i sicrhau bod contractau ar gyfer cyfraniadau sector preifat at wyliadwriaeth sganio yng Nghymru (darpariaeth PME a chludiant carcasau ar gyfer PME) yn adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol ac yn gwneud gwelliannau i'r dyfodol

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Mae ein canlyniadau fel a ganlyn:

- Sicrhau bod bygythiadau sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid, a bygythiadau yn ymwneud ag anifeiliaid i iechyd y cyhoedd, yn cael eu canfod yn gynnar
- Monitro prif glefydau heintus da byw yng Nghymru, er mwyn cefnogi ein nodau rheoli AMR



- Parhau i ddatblygu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd gwyliadwriaeth a gofynion gwyliadwriaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol
- Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfres o fesurau gwyliadwriaeth sganio a ddatblygir gan APHA, gan gynnwys monitro gallu gwyliadwriaeth yng Nghymru.

Byddwn yn cyflawni gwaith i bennu'r ffordd orau o fonitro ymgysylltu â'r system wyliadwriaeth, ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA).

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

**apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance/index.htm**

**bva.co.uk/news-campaigns-and-policy/policy/animal-disease-surveillance/disease-surveillance**

## Rheoli Mewnforion

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno amryw o fesurau a ddyluniwyd i sicrhau nad yw anifeiliaid wedi'u mewnforio a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn peri risgiau annerbyniol i iechyd pobl a/neu iechyd anifeiliaid. Dyma un o'n systemau amddiffyn mwyaf allweddol i ddiogelu Cymru a'n diwydiant ffermio rhag bygythiadau clefydau anifeiliaid egsotig ("cadw haint allan"), ac mae'r wyliadwriaeth filfeddygol (a drafodwyd uchod) yn cael ei chyflawni ar lefel ryngwladol i lywio'r mesurau rheoli mewnforion sydd ar waith gennym. Mae hyn yn ein galluogi i gymryd camau brys, megis cyfyngu ar neu wahardd mewnforion o wledydd lle mae achosion o glefyd anifeiliaid wedi'u cadarnhau. Wrth baratoi i ymadael â'r UE, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod rheolau masnach yr UE wedi'u cynnwys yn ein mesurau rheoli clefydau domestig a bod ein hanifeiliaid yn cael eu diogelu rhag clefyd, a hefyd fod ein sefyllfa fasnachu fel allforiwr yn cael ei chynnal a'i gwella.

Mae archwiliadau corfforol a dogfennau yn cael eu cynnal ar anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o wledydd nad ydynt yn yr UE mewn cyfleusterau cymeradwy cyn iddynt ddod i mewn i'r DU, a rhaid bodloni gofynion iechyd ac archwiliadau dogfennau ychwanegol cyn y gall anifeiliaid o'r UE gyrraedd. Trwy archwiliadau o'r fath, rydym wedi

gallu cymryd camau effeithiol cyn mewnforio gwartheg a defaid a allai fod yn cludo feirws y Tafod Glas. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau rhagweithiol i atgoffa'r diwydiant y byddai'n well cael anifeiliaid o wledydd a rhanbarthau sy'n rhydd o glefyd.

Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i dda byw, ac mae ein hanifeiliaid anwes yn cael eu diogelu rhag clefydau anifeiliaid hefyd, gan gynnwys y gynddaredd. Rhaid i bob ci, cath a ffured sy'n dod i mewn i'r DU fod wedi'i ficrosglodynnu, ei frechu rhag y gynddaredd, teithio gyda chludydd cymeradwy a bod â naill ai Pasbort Anifeiliaid Anwes neu dystysgrif filfeddygol trydedd wlad swyddogol. Mae'r DU yn cynnal lefel uchel o amddiffyniad rhag y gynddaredd. Rhaid i bob ci sy'n dod i mewn i'r DU fod wedi'i frechu ac mae system archwilio gadarn ar waith i sicrhau nad yw anifeiliaid anwes sy'n dod i mewn i'r DU yn peri risg i iechyd pobl neu iechyd anifeiliaid.

Mae pob math o wahanol bathogenau yn peri pryder o ran mewnforio anifeiliaid anwes o dramor, gyda rhai ohonynt yn filheintiau. Bydd y risg sydd wedi'i phriodoli i'r clefydau hyn yn amrywio yn unol â nifer fawr o ffactorau, gan gynnwys bioleg y pathogen a'r rhanbarth daearyddol y daw'r anifail ohono. Dim ond un o'r clefydau hynny sy'n hysbysadwy ar hyn o bryd – y gynddaredd, ac mae'r risg honno'n cael ei thrafod gan y gofyniad brechu gorfodol ac ardystiad gorfodol gan y milfeddyg ar ôl i hynny gael ei wneud. Mae manylion y rheolau hynny yn y Cynllun Teithio PET.



Dyma rai o'r pathogenau allweddol sy'n peri pryder:

- Clefyd y cŵn
- Babesiasis cŵn
- Leishmaniasis
- Brucellosus canis
- Echinococcus multilocularis
- Llyngyren y tafod – Linguatula serrata
- Llyngyren y llygad – Thelazia callipaeda
- Llyngyren y galon (Dirofilaria immitis).

Mae clefydau megis clefyd y cŵn, babesiasis cŵn, leishmaniasis a llyngyren y galon yn gallu cael eu cludo gan gŵn nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion o'r clefyd adeg teithio. Mae'r clefydau hynny yn gallu bod yn glefydau egsotig sy'n bygwth bywyd na welir yn draddodiadol yn y DU. Mae cŵn sy'n gludwyr asymptomatig weithiau'n cael eu galw'n gŵn "Trojan".

**Beth rydym yn ei wneud?**

Mae nifer yr anifeiliaid anwes, ac yn enwedig cŵn, sy'n cael eu mewnforio wedi cynyddu yn ddiweddar. Pan fo unigolyn yn ceisio mewnforio anifail o wahanol boblogaeth, dylai ystyried gwahaniaethau yn statws iechyd poblogaeth y tarddle a'r cyrchfan a chymryd y camau priodol i atal mewnforio pathogenau o'r naill i'r llall. Mae ganddynt ddyletswydd gofal, nid yn unig i sicrhau lles yr anifail ond hefyd i'r boblogaeth ehangach a all fod yn wynebu risg.

Mae cosbau llym ar waith ar gyfer y rhai sy'n torri'r gyfraith trwy smyglo cŵn neu ddefnyddio dogfennaeth ffug. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid gweithredol a sefydliadau gwirfoddol, gan rannu gwybodaeth ac ystyried pa opsiynau gorfodi sy'n briodol a sut y gellir eu cyflawni. Mae hyn wedi cynnwys cyfraniad at weithrediadau amlasiantaethol sy'n targedu mewnforio cŵn bach yn anghyfreithlon o Weriniaeth Iwerddon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid gweithredol a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â mewnforion anifeiliaid anghyfreithlon a nodi'r risgiau

clefyd a'r materion lles a achosir gan smyglo anifeiliaid. Mae gan y cyhoedd gyfraniad i'w wneud o ran cadw risg clefydau megis y gynddaredd yn isel trwy sicrhau bod cŵn bach yn cael eu prynu o ffynonellau cyfrifol.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Hoffem hwyluso mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y gallai mewnforio anifeiliaid beri risg i iechyd y cyhoedd a/neu iechyd anifeiliaid a'r camau y dylid eu cymryd i liniaru hyn.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

**gov.uk/take-pet-abroad**

## Unedau Cwarantin

Yn ôl y rheolau ar wahardd symud, ar ôl symud gwartheg, defaid a geifr i ddaliad, mae'n ofynnol cychwyn gwaharddiad symud chwe niwrnod ar yr eiddo hwnnw sy'n golygu na chaiff anifeiliaid fynd oddi ar y daliad oni bai eu bod yn mynd yn syth i gael eu lladd. Ceir rhai eithriadau. Os bydd moch yn symud i ddaliad, bydd hynny'n sbarduno gwaharddiad symud 20 niwrnod, gan fod mwy o risg yn gysylltiedig â moch.

Ym mis Mai 2015, cytunodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd a'r Gweinidog Adnoddau Naturiol i gyflwyno eithriad i'r gwaharddiad symud 6 niwrnod ar gyfer gwartheg, defaid a geifr ar ffermydd a oedd yn defnyddio Unedau Cwarantîn cymeradwy. Roedd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar asesiad o fanteision, costau a risgiau'r gwahanol opsiynau ar gyfer darparu Unedau Cwarantîn.

Uned gaeedig bioddiogel i gadw anifeiliaid sy'n symud i fferm o farchnad neu ddaliad arall, neu anifeiliaid sy'n dychwelyd o sioe amaethyddol neu farchnad yw Uned Cwarantin. Mae Unedau Cwarantin wedi'u dylunio i sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd symud a chynnal safon uchel o fioddiogelwch i helpu i atal lledaeniad clefyd.


Mae cyfres o reolau a safonau gweithredol yn gwarantu'r lefel uchaf o fioddiogelwch ar gyfer y fferm ac yn cyfyngu ar gysylltiad rhwng anifeiliaid mewn cwarantin ac anifeiliaid ar y prif ddaliad.

Cynhaliwyd adolygiad cerrig milltir o'r cynllun Unedau Cwarantin yn 2018 i ystyried effaith Unedau Cwarantin ar bresenoldeb mewn sioeau. Gwnaed naw argymhelliad gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i ffermwyr gael a chynnal Uned Cwarantin ac i symleiddio'r canllawiau perthnasol a'u cyfathrebu'n well. Bydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi'r argymhellion ar waith gydol 2019-20. Mae'r cyntaf o'r argymhellion yn ymwneud â gwell cyfathrebu ac egluro canllawiau Unedau Cwarantin bellach wedi'i gwblhau.

**Beth rydym am ei wneud?**

Y prif gerrig milltir ar gyfer 2019-20 yw:

- Archwilio gweddill yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr Adolygiad Cerrig Milltir o'r cynllun Unedau Cwarantin
- Gwneud y newidiadau a'r argymhellion a fydd o fudd i ffermwyr sy'n gweithredu/ystyried rhoi cynnig ar y cynllun.



**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Y nod yw gwneud y cynllun Unedau Cwarantin yn fwy syml i ffermwyr ei weithredu a chodi proffil y cynllun ymhlith y gymuned ffermio fel dull bioddiogelwch effeithiol a fydd yn galluogi ffermydd i weithredu'n hyblyg yn ystod cyfnodau pan fo anifeiliaid yn symud yn aml, ac yn ystod y tymor sioeau. Hoffem weld cynnydd yn nifer yr Unedau Cwarantin a gofrestrir o ganlyniad, a bod eu defnydd yn dod yn rhan o'r system bioddiogelwch ar gyfer cyflwyno da byw newydd i ddaliad. Bydd gweithredu Unedau Cwarantin fel hyn yn helpu i arwain y ffordd o ran gwella agweddau at fioddiogelwch fferm yn gyffredinol.

Caiff cynnydd ei fonitro trwy'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw, gwaith monitro cyffredinol yr Adroddiad Hwyluso'r Drefn a thargedau'r Adolygiad Cerrig Milltir.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

**llyw.cymru/beth-yw-uned-gwarantin**

## Beth fydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

**Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd:** darparu cynrychiolaeth ar Grŵp Cyflenwi AMR Anifeiliaid a'r Amgylchedd ar gyfer Cymru, gan gefnogi datblygiad 'Cynllun Gweithredu Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd ar gyfer Cymru'.

**Ymwrthedd i Feddyginiaethau Lladd Llyngyr:** defnyddio cysylltiadau â'r diwydiant i gefnogi gwaith ymchwil i ddeall natur a maint y defnydd o feddyginiaethau lladd llyngyr ar ffermydd defaid a gwartheg bîff Cymru, a darparu arweiniad arbenigol ar gynigion o ganlyniad.

**Cadw Gwyliadwriaeth Filfeddygol:** ymgysylltu ag asiantaethau cyflenwi, asiantaethau amaethyddol, asiantaethau trydydd sector a rhanddeiliaid cymunedau gwledig i hwyluso gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwyliadwriaeth effeithiol.

**Unedau Cwarantin:** darparu rôl ymgynghorol i archwilio a chyflawni'r argymhellion yn dilyn yr adolygiad cerrig milltir o'r cynllun, gan eu gwneud yn haws eu gweithredu a'u defnyddio'n fwy eang ledled Cymru.

# Gwaredu Clefydau



Mae clefydau anifeiliaid yn fygythiad cyson i'r sectorau da byw, dofednod ac adar caeth yng Nghymru, a gall achosion o glefyd gael effaith ddinistriol ar ddiwydiant, cymunedau gwledig ac economi Cymru. Yn ogystal, ar gyfer milheintiau (sy'n drosglwyddadwy i bobl e.e. salmonela, y gynddaredd), mae yna botensial y bydd effaith ar iechyd y cyhoedd.

Fel yr amlinellwyd, dylid cymryd camau i geisio atal clefyd yn y lle cyntaf ond, pan fydd achosion o glefyd yn digwydd, rhaid cymryd camau i reoli a gwaredu'r clefyd a chyfyngu ar ei effeithiau. Ar gyfer y clefydau hynny sy'n bresennol yng Nghymru, mae yna fesurau rheoli a gweithdrefnau monitro ar waith i bennu mynychder y clefyd ac i atal risg i'r gadwyn fwyd ac i iechyd y cyhoedd.

## Clefydau Hysbysadwy

Ystyr clefydau hysbysadwy yw'r clefydau hynny y mae angen deddfwriaeth i sicrhau eu rheolaeth effeithiol ac, os credir bod achosion wedi digwydd, rhaid rhoi gwybod i APHA yn syth er mwyn iddo ymchwilio ymhellach. Gall clefydau ddod yn hysbysadwy oherwydd gallant gyflwyno canlyniadau difrifol i iechyd y cyhoedd, ein sefyllfa fasnachu ryngwladol a'r gymdeithas ehangach yn gyffredinol, gan gynnwys cryn gost economaidd wrth geisio gwaredu'r clefyd. Mae deddfwriaeth yn caniatáu dull cydgysylltiedig o waredu a ddylai ddarparu mwy o gyfle i waredu'r clefyd yn gyfan gwbl

**Gall clefydau hysbysadwy fod yn:**

- Endemig – yn bresennol yn y DU yn barod, megis TB gwarthegB
- Egsotig – ddim yn bresennol yn y DU fel arfer, megis clwy'r traed a'r genau

Mae rhai clefydau endemig ac egsotig yn filheintiau, sy'n golygu y gallant gael eu trosglwyddo rhwng anifeiliaid a phobl, megis y gynddaredd.

## Clefydau Anhysbysadwy

Yn ogystal â'r clefydau hynny a reolir gan ddeddfwriaeth, mae yna glefydau anifeiliaid eraill sy'n anhysbysadwy gan nad ydynt yn peri risg i iechyd pobl, masnach ryngwladol neu gymdeithas ehangach a gellir eu rheoli'n fwy effeithiol gyda mesurau rheoli seiliedig ar ymarfer mwy traddodiadol, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth. Ond nid yw hynny'n golygu nad yw clefydau o'r fath yn cael unrhyw effaith. Mae BVD a mastitis yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant yr anifeiliaid hynny yr effeithir arnynt. Felly, dylai'r perchnogion ddiogelu eu stoc rhag clefydau o'r fath a'u trin yn effeithiol os byddant yn bresennol ar eu daliad. Ynghyd ag effeithio ar elw, mae clefydau o'r fath yn niweidiol i les yr anifeiliaid, ac mae gan berchnogion gyfrifoldeb i sicrhau nad yw eu hanifeiliaid mewn poen nac yn dioddef o oblygiadau iechyd y clefydau hyn ar eu hanifeiliaid.

Er mai perchnogion sydd â'r cyfrifoldeb pennaf, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gwaith y diwydiant lle cydnabyddir nad yw mesurau rheoli clefydau o'r fath yn gweithio a bod angen dulliau cydgysylltiedig Cymru gyfan i fynd i'r afael â'r bygythiad. Mae Llywodraeth Cymru eisiau cefnogi'r diwydiant yn eu hymdrechion, i sicrhau canlyniadau llwyddiannus, ac mae wedi cefnogi rhaglenni megis y rhaglen Gwaredu BVD ac yn annog y diwydiant i gynhyrchu atebion cydweithredol i waredu'r clafr.

## Cynlluniau Wrth Gefn

Trwy fod â chynlluniau effeithiol wrth gefn rydym yn sicrhau ein bod yn barod i ymdrin â chlefydau anifeiliaid er mwyn lleihau'r effaith, cyfyngu ar ymlediad, dileu'r clefyd yn gyflym a hwyluso'r broses adfer.

Mae Cynllun Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer clefydau egsotig hysbysadwy mewn anifeiliaid yn nodi'r trefniadau a'r systemau sydd eu hangen i ymateb i achosion o glefyd anifail egsotig hysbysadwy, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r llywodraeth, rhanddeiliaid a phartneriaid gweithredol. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Mae effeithiolrwydd y Cynllun Wrth Gefn yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir nodi achos cyntaf y clefyd. Mae milfeddygon y Llywodraeth yn monitro'r sefyllfa o ran clefydau byd-eang ac yn cadw golwg er mwyn nodi bygythiadau yn gyflym ac ymateb yn effeithiol i achosion o glefydau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gweithgarwch hwn gael ei ategu gan wyliadwriaeth pawb sy'n cadw anifeiliaid, sy'n cael cyswllt rheolaidd â'u hanifeiliaid ac sydd yn y sefyllfa orau i sylwi ar unrhyw newidiadau mewn iechyd neu ymddygiad.

Dylai pawb sy'n cadw anifeiliaid eu harchwilio'n rheolaidd, gan chwilio am unrhyw beth anarferol. Os yw rhywun sy'n cadw anifeiliaid yn amau bod gan unrhyw anifail glefyd hysbysadwy (ar ôl derbyn cyngor gan ei filfeddyg preifat), dylai weithredu'n gyflym a hysbysu'r APHA (0300 303 8268). Mae canfod clefyd yn gynnar yn hollbwysig i gyfyngu ar ei ledaeniad.

### Beth rydym am ei wneud?

Dylai pawb sy'n cadw anifeiliaid gynnal lefelau uchel o fioddiogelwch er mwyn gwarchod eu da byw. Gall y manylion lleiaf fod yn fanteisiol iawn, gan gynnwys sicrhau bod dillad a cherbydau yn lân, cynnal terfynau caeau, atgyweirio bylchau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth brynu da byw. Mae gwella bioddiogelwch a gwyliadwriaeth yn bwysig er mwyn gwarchod anifeiliaid yng Nghymru rhag clefydau.

O ganlyniad, mae'r llywodraeth a'r diwydiant yn gwneud cyfraniad allweddol at reoli a dileu clefydau hysbysadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid, y diwydiant amaeth, y proffesiwn milfeddygol, partneriaid gweithredol a rhanddeiliaid eraill, gan fod eu cyngor a'u cymorth yn hanfodol i leihau perygl ac effaith clefydau anifeiliaid.

### Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?

Bydd lefelau uwch o wyliadwriaeth gan geidwaid yn sicrhau ymateb cyflym i unrhyw glefyd egsotig hysbysadwy, gan sicrhau ein bod yn gallu lleihau effaith a lledaeniad y clefyd, a'i ddileu'n gyflym.

### Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Cynllun Wrth Gefn: **llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-wrth-gefn-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-clefydau-egsotig-anifeiliaid.pdf.**



## Twbercwlosis Gwartheg

Mae TB gwartheg yn cael ei achosi gan facteriwm (M bovis) ac mae'n gallu effeithio ar famaliaid o bob math. Mae'r perygl i iechyd y cyhoedd yn isel oherwydd profion rheolaidd ar wartheg, pasteureiddio llaeth ac archwiliadau post mortem mewn lladd-dai. Serch hynny, mae'r clefyd yn cael effaith sylweddol ar ffermydd a'r economi amaethyddol. Nid oes unrhyw driniaeth ar gael ar gyfer gwartheg sydd wedi'u heintio. Ers 2010 mae pob buches yng Nghymru wedi cael ei phrofi bob blwyddyn er mwyn ceisio canfod yr haint cyn bod gwartheg yn dangos unrhyw symptomau clinigol o salwch. Mae gwartheg sydd wedi'u heintio yn cael eu symud o'r fuches felly cyn y gallant heintio eraill. Er mwyn dileu TB gwartheg mae angen cyfuniad o fesurau sy'n ymdrin â holl ffynonellau'r haint (anifeiliaid domestig a bywyd gwyllt).

**Beth rydym am ei wneud?**

Cyflwynwyd Rhaglen Cymru i Ddileu TB yn 2008, ac ers hynny mae mesurau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r clefyd wedi'u cyflwyno a'u datblygu'n raddol, a lansiwyd Rhaglen ddiwygiedig yn 2017. Mae dogfen gyffredinol y Rhaglen yn nodi ei seiliau, ei gwerthoedd craidd a'i pholisïau allweddol, ac mae Cynllun Cyflenwi yn nodi'r mesurau a'r gwelliannau sy'n cael eu mabwysiadu ar lefel Cymru gyfan a lefel ranbarthol.

Sefydlodd Rhaglen Dileu TB 2017 Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel fel rhan o ddull gweithredu rhanbarthol i ddileu TB. Trwy sefydlu'r ardaloedd hyn, bu modd i ni gyflwyno mesurau rheoli mwy eglur a gosod dyddiadau targed fel bod pob rhanbarth yn rhydd o TB.

Mae'r Rhaglen yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i sefyllfaoedd sy'n datblygu o safbwynt y clefyd. Er enghraifft, yn Ardal TB Canolradd y Gogledd (ITBAN) rydym wedi cyflwyno mesurau dileu ychwanegol mewn ymateb i gynnydd yn nifer yr achosion o'r clefyd.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dileu TB yn amcan hirdymor. Rhagwelir y bydd y mesurau yn y Rhaglen yn arwain at ostyngiad cyson ym mynychder a nifer yr achosion o TB, gan ddileu TB gwartheg yng Nghymru yn y pen draw.

Cyhoeddwyd targedau dileu TB ar gyfer Cymru a thargedau dros dro ar gyfer pob rhanbarth TB ym mis Rhagfyr 2017. Os llwyddir i gyrraedd y targedau hyn, bydd Cymru yn rhydd o TB yn swyddogol rhwng 2036 a 2041. Bydd hyn yn helpu i gyflawni holl ganlyniadau strategol Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

Hyb TB - **tbhub.co.uk**

Cyhoeddir data bob mis ar nifer yr achosion newydd ymysg buchesi a nifer y gwartheg sy'n cael eu difa yng Nghymru. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu â ffigurau misoedd blaenorol er mwyn ceisio deall y sefyllfa o ran mynychder y clefyd. llyw.cymru/nifer-yr-achosion-o-twbercwlosis-tb-mewn-gwartheg-ym-mhrydain-fawr?


Dangosfwrdd TB
**llyw.cymru/dangosfwrdd-tb-gwartheg**

Adroddiad Gwyliadwriaeth TB
**llyw.cymru/tb-gwartheg-adroddiadau-blynyddol-gwyliadwriaeth**

Trosolwg o TB
**llyw.cymru/tb-gwartheg**

Rhaglen Dileu
**llyw.cymru/y-rhaglen-dileu-tb-mewn-gwartheg**

Cynllun Cyflenwi : **llyw.cymru/rhaglen-dileu-tb-gwartheg-cymru-cynllun-cyflenwi**



## Dolur Rhydd Feirysol Buchol

Haint feirysol mewn gwartheg yw BVD, ac mae'n gallu arwain at wahanol ganlyniadau clinigol sy'n amrywio o heintiau is-glinigol i symptomau mwy difrifol, gan gynnwys erthylu, anffrwythlondeb, llai o allu i wrthsefyll heintiau eraill yn y fuches, a Chlefyd Mucosal angheuol. Mae BVD yn cael ei gynnal gan boblogaeth fach o anifeiliaid sy'n cael eu "heintio'n gyson" gan y feirys. Anifeiliaid sy'n cael eu heintio'n gyson yw prif gludwyr BVD, ac maent yn cael eu heintio yn y groth yn ystod cyfnod cynnar beichiogrwydd. Mae heintiau o'r fath yn para gydol y cyfnod beichiogrwydd ac ar ôl y geni, gan bara gydol oes yr anifail.

Mae BVD yn cael effaith ar gynhyrchiant, ac mae'n gallu cael canlyniadau economaidd arwyddocaol ar gyfer cynhyrchwyr gwartheg ynghyd â goblygiadau ar gyfer lles anifeiliaid. Bydd dileu BVD yng Nghymru yn fanteisiol iawn i safonau iechyd a lles anifeiliaid, a bydd yn helpu i leihau'r effaith ar gynhyrchiant a'r costau economaidd difrifol i fusnesau fferm.

Mae sefydlu Cynllun Dileu BVD ar gyfer Cymru wedi bod yn flaenoriaeth i Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid dros y 3 blynedd diwethaf, ac mae'n flaenoriaeth o hyd. Mae grŵp diwydiant a sefydlwyd o dan Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi arwain y gwaith o ddatblygu cynllun o'r enw 'Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru - Gwaredu BVD'. Llwyddodd y grŵp i sicrhau cyllid gwerth bron i £10 miliwn gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 er



mwyn cyflwyno'r rhaglen i ddileu BVD yng Nghymru.

### Beth rydym am ei wneud?

Mae Gwaredu BVD yn rhaglen sgrinio wirfoddol sydd ar gael i holl fuchesi gwartheg yng Nghymru. Cynhelir y broses sgrinio ar yr un pryd â'r profion TB. Ategir hyn gan gyngor a chymorth gan filfeddygon er mwyn nodi a gwaredu unrhyw wartheg sy'n cael eu heintio'n gyson yn y fuches yn ôl y gofyn. Mae'r cynllun yn cynnwys cyfnod profion gwirfoddol 3 blynedd, a bwriedir ystyried cyflwyno deddfwriaeth ym mlwyddyn 4 a fyddai'n cynnwys profion gorfodol..

Mae'r rhaglen wedi cyrraedd ei hail flwyddyn bellach, ac anogir holl geidwaid gwartheg yng Nghymru i gymryd rhan yn y rhaglen.

### Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?

Byddai dileu BVD yn gyfan gwbl ymysg buchesi yng Nghymru, a'r sicrwydd bod BVD wedi'i waredu yng Nghymru, yn arwain at fanteision ariannol sylweddol i'r diwydiant, gan wella iechyd gwartheg yng Nghymru.

Hyd yn hyn (mis Mai 2019), mae tua 6,999 o fuchesi gwartheg wedi'u sgrinio ar gyfer BVD ers lansio'r rhaglen ym mis Medi 2017. Bydd diweddariadau rheolaidd ar faint o bobl sy'n manteisio ar y cynllun a chanfyddiadau'r clefyd ledled Cymru yn helpu i fonitro cyfranogiad yn y cynllun ac amledd y clefyd ledled Cymru.

### Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru - **ahww.cymru/cy**



## Y Clafr

Y Clafr yw un o'r clefydau defaid mwyaf heintus yng Nghymru ac mae ei ddileu yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'n cael ei achosi gan widdon sy'n byw ar wyneb y croen. Mae eu baw yn achosi adwaith alergaidd sy'n arwain at lid difrifol sy'n golygu bod y ddafad yn rhoi'r gorau i bori a'i chyflwr yn gwaethygu. Yn ogystal â'r goblygiadau iechyd a lles yma, mae'r clefyd yn cael effeithiau ariannol sylweddol ar y diwydiant.

Cyfrifoldeb y diwydiant defaid yw rheoli'r Clafr. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar berchnogion diadelloedd a cheidwaid defaid i drin a rheoli'r Clafr yn eu diadelloedd. Mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wella rheolaeth o'r Clafr pan na fydd perchnogion y defaid yr effeithir arnynt yn cymryd camau priodol.

Comisiynodd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid adroddiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Bryste i bennu hyd a lled y clefyd ledled Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu sail dystiolaeth a oedd yn rhoi syniad o nifer yr achosion o'r clefyd a hefyd yn nodi ardaloedd ar draws Cymru lle mae'r Clafr ar ei fwyaf dwys.

Mae'r Clafr yn fygythiad cynyddol i'r ddiadell genedlaethol, gyda chynnydd yn nifer yr achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ar y cyd â chamddealltwriaeth a defnydd anghywir o driniaeth gywir. Wrth i'r clefyd wreiddio, mae wedi dod yn anoddach mynd i'r afael ag ef yn effeithiol ar sail unigol, ac mae Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn deall yr angen am ddull cydweithredol o geisio ei reoli.

Ers hynny, mae is-grŵp y Clafr Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid wedi cyhoeddi adroddiad yn amlinellu'r broblem ac ateb posibl i'r diwydiant.

**Beth rydym am ei wneud?**

Ar 7 Ionawr 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, fod £5 miliwn ar gael trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig i helpu'r diwydiant i gael gwared ar y Clafr. Bydd hyn yn destun cais trwy gystadleuaeth deg ac agored, a bydd Grŵp y Fframwaith yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod unrhyw gynllun dileu yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

**Beth yw'r canlyniadau rydym am eu cyflawni?**

Mae'r Clafr yn broblem ddifrifol, ac mae nifer yr achosion a'u difrifoldeb wedi cynyddu ers i dipio gorfodol ddod i ben. Mae rheoli'r clefyd yn hanfodol, a gallai ei ddileu yn llwyr arwain at fanteision economaidd parhaol sylweddol i'r sector ar adeg arbennig o heriol.

Gellir mesur cynnydd trwy fonitro'r cwymp yn nifer yr achosion neu yn ôl nifer y diadelloedd a gafodd eu trin, yn dibynnu ar ba gynllun dileu a fabwysiedir.

**Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth?**

Trosolwg:
**llyw.cymru/y-clafr-0**

SCOPS: **scops.org.uk/external-parasites/scab**

## Beth fydd Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn ei wneud i gefnogi'r amcanion yma?

**Cynllunio Wrth Gefn:** parhau i chwarae rôl hanfodol wrth ymateb i reoli a dileu unrhyw achosion o glefyd hysbysadwy, fel rhan o ddull partneriaeth ehangach gyda Llywodraeth Cymru, diwydiant, y proffesiwn milfeddygol, partneriaid gweithredol a rhanddeiliaid eraill.

**Twbercwlosis Gwartheg (TB):** helpu i roi'r rhaglen dileu TB newydd ar waith, gan adeiladu ar ei llwyddiant a chyflymu'r gwaith trwy wella'r sail dystiolaeth a chryfhau mesurau.

**Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD):**
annog ceidwaid gwartheg i gymryd rhan yn y cynllun Gwaredu BVD i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 100% o holl fuchesi gwartheg Cymru yn cael eu sgrinio.

**Y Clafr:** cefnogi gweithredu a chyflawni'r prosiect dan arweiniad y diwydiant i gael gwared ar y Clafr, gan ddarparu cyngor a mewnbwn i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant fel rhan o ymagwedd gydweithredol.

# Manylion cyswllt

Dewch o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Fframwaith a Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid yn:

**llyw.cymru/strategaeth-anifeiliaid-a-ffermir**

Ebostiwch ni yn:
**WAHFG@llyw.cymru**

Dilynwch ni ar Twitter
**@CVOCymru**

Neu ysgrifennwch atom yn:
**Grŵp Fframwaith Cymru ar Iechyd a Lles Anifeiliaid**
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Adeiladau Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38193 ISBN digidol: 978-1-83876-742-6 ISBN argraffu: 978-1-83876-740-2